

Arweinlyfr darluniadol

# Coed y Carneddau

# Trees of the Carneddau

an illustrated guide



# Trefn y Coed / Order of the Trees


1. Derwen Di-goes / Sessile Oak *(tud.pg 6)*
2. Onnen / Ash *(8)*
3. Ffawydden / Beech *(10)*
4. Bedwen Lwyd / Downy Birch *(12)*
5. Bedwen Arian / Silver Birch *(14)*
6. Criafolen / Rowan – Mountain Ash *(16)*
7. Masarnen / Sycamore *(18)*
8. Collen / Hazel *(20)*
9. Draenen Wen / Hawthorn *(22)*
10. Draenen Ddu / Blackthorn *(24)*
11. Coeden Afal Surion / Crab Apple *(26)*
12. Ysgawen / Elder *(28)*
13. Celynnen / Holly *(30)*
14. Rhosyn y Ci / Dogrose *(32)*
15. Gwernen / Alder *(34)*
16. Helygen Lwyd / Grey Willow *(36)*
17. Helygen Ddeilgron / Goat Willow *(38)*
18. Ceiriosen Wyllt / Wild Cherry *(40)*
19. Ceiriosen yr Aderyn / Bird Cherry *(42)*
20. Pinwydden yr Alban / Scots Pine *(44)*
21. Aethnen / Aspen *(46)*
22. Pisgwydden / Small-leaved Lime *(48)*
23. Castanwydden Bêr / Sweet Chestnut *(50)*
24. Castanwydden y Meirch / Horse Chestnut *(52)*
25. Ywen / Yew *(54)*
26. Masarnen y Maes / Field Maple *(56)*
27. Oestrwydden / Hornbeam *(60)*
28. Llwyfen Lydanddail / Wych Elm *(60)*
29. Poplysen Ddu / Black Poplar *(62)*
30. Meriwen / Juniper *(64)*

# Allwedd / Key

1 **Ucheldir Agored** - Tir uwchben 300m lefel môr yn gynnwys gweundiroedd a ffridd.
**Open Upland** – Land above 300m sea level including heathland and moorland.

2 **Iseldir Agored** – Ardal o dan 300m lefel môr.
**Open Lowland** – Land up to 300m above sea level.

3 **Gwlyptir** – Gan gynnwys glannau afonydd, gwlyptiroedd a chorsydd.
**Wetland** – Including river banks, wetlands and bogs.

4 **Gwrych / Hedgerow**

5 **Bythwyrdd / Evergreen**

6 **Brodorol i'r DU / Native United Kingdom**

7 **Anfrodorol i'r DU / Non-native United Kingdom**

Mae'r llyfryn yn dangos cynefin mwyaf cyffredin pob coeden.
The book shows the most common habitat of each tree.

**Deuoecaidd/Dioecious -** Blodau gwryw a benyw yn tyfu ar goed gwahanol/Male and female flowers grow on separate trees.

**Monoecaidd/Monoecious –** Blodau gwryw a benyw yn tyfu ar yr un coeden/Male and female flowers grow on the same tree.

* Gwybodaeth yn berthnasol i ardal y Carneddau. Nid yw'r darluniadau yn gywir i faint. Ymchwiliwch yn fanwl cyn chwilota. /Information is relevant to the Carneddau area. Illustrations are not true to size. Thoroughly research before foraging.

| Mathau o gynefinoedd / Types of habitats | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Derwen Di-goes / Sessile Oak | 1 | 2 | 3 | | | 6 | |
| Onnen / Ash | 1 | 2 | 3 | 4 | | 6 | |
| Ffawydden / Beech | 1 | | 3 | | | 6 | |
| Bedwen Lwyd / Downy Birch | 1 | 2 | 3 | 4 | | 6 | |
| Bedwen Arian / Silver Birch | 1 | 2 | | | | 6 | |
| Criafolen / Rowan – Mountain Ash | 1 | 2 | 3 | | | 6 | |
| Masarnen / Sycamore | 1 | 2 | 3 | | | | 7 |
| Collen / Hazel | 1 | 2 | 3 | | | 6 | |
| Draenen Wen / Hawthorn | 1 | 2 | 3 | | | 6 | |
| Draenen Ddu / Blackthorn | 1 | 2 | 3 | | | 6 | |
| Coeden Afal Surion / Crab Apple | 1 | 2 | 3 | | | 6 | |
| Ysgawen / Elder | 1 | | 3 | | | 6 | |
| Celynnen / Holly | 1 | 2 | 3 | | 5 | 6 | |
| Rhosyn y Ci / Dogrose | | | 3 | | | 6 | |
| Gwernen / Alder | 1 | | | 4 | | 6 | |

| Mathau o gynefinoedd / Types of habitats | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Helygen Lwyd / Grey Willow | 1 | | | 4 | | 6 | |
| Helygen Ddeilgron / Goat Willow | 1 | | | 4 | | 6 | |
| Ceiriosen Wyllt / Wild Cherry | 1 | | | | | 6 | |
| Ceiriosen yr Aderyn / Bird Cherry | 1 | | 3 | | | 6 | |
| Pinwydden yr Alban / Scots Pine | 1 | 2 | | | 5 | 6 | |
| Aethnen / Aspen | 1 | 2 | | | | 6 | |
| Pisgwydden / Small-leaved Lime | 1 | | | | | 6 | |
| Castanwydden Bêr / Sweet Chestnut | 1 | | | | | | 7 |
| Castanwydden y Meirch / Horse Chestnut | 1 | | | | | | 7 |
| Ywen / Yew | | | | | 5 | 6 | |
| Masarnen y Maes / Field Maple | 1 | | 3 | | | 6 | |
| Oestrwydden / Hornbeam | 1 | | 3 | | | 6 | |
| Llwyfen Lydanddail / Wych Elm | 1 | | 3 | | | 6 | |
| Poplysen Ddu / Black Poplar | 1 | | | 4 | | 6 | |
| Meriwen / Juniper | | 2 | | | 5 | 6 | |



# Derwen Digoes / Sessile Oak

*Quercus petraea*

1 2 3 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 30m o uchder a gellir ei chanfod fel arfer fel coeden unigol mewn ucheldiroedd ac iseldiroedd.**

**Dail:** Gwyrdd tywyll, llabedau isel â choesyn hir.

**Hadau:** Mes ynghlwm i'r brigyn. Gwelir clystyrrau o flagur brown ar flaenau'r brigau.

**Blodau:** Monoecaidd. Y blodau gwrywaidd yw'r cenawon gwyrdd. Y blodau benywaidd yw clwstwr o bractiau sydd yn edrych fel blaguryn coch.

**Rhisgl:** Brown llwydaidd gyda holltau dwfn garw wrth i'r goeden aeddfedu.

**Ffaith ddiddorol:** Fe'i defnyddir ar gyfer gwneud casgenni a chasgiau, er mwyn rhoi blas ar hylif.

**This tree can grow up to 30m tall and is commonly found as single trees in uplands and lowlands.**

**Leaves:** Dark green, shallow lobed with a long stalk.

**Seeds:** Acorns attached directly onto the twig. Brown buds cluster at the tip of the twigs.

**Flowers:** Monoecious. Male flowers are green catkins. Female flowers are clusters of bracts, resembling red flower buds.

**Bark:** Greyish brown with rugged deep fissures as the tree matures.

**Fun fact:** Is used for barrel and cask making to flavour the liquid.



# Onnen / Ash

*Fraxinus excelsior*

1 2 3 4 6

**Gallai'r goeden hon dyfu hyd at 30m o uchder, ond oherwydd clwy'r coed ynn, mae'r ffigwr hwn wedi gostwng i tua 25m o uchder.**

**Dail:** Mae 9-13 o ddail bychain gwyrdd golau yn tyfu gyferbyn â'i gilydd gydag un ddeilen ar y pen.

**Blodau:** Deuoecaidd. Mae'r blodau gwrywaidd a benywaidd yn borffor ac yn ymddangos cyn y dail yn y gwanwyn, gan dyfu mewn clystyrau pigog ar flaenau'r brigau.

**Hadau:** Hadau asgellog gwyrdd golau sy'n troi'n frown ac yn cwympo yn yr Hydref.

**Rhisgl:** Llwyd golau, yn aeddfedu rhwydwaith rheolaidd - fel arfer, o gribau cris-croes, tebyg i goed Derw Coesynnog.

**Ffaith ddiddorol:** Pren cryf a hyblyg. Mae wedi cael ei ddefnyddio i wneud rhwyfau, ffyn hoci a ffyn sgïo. Bydd clwy'r coed ynn yn lladd hyd at 80% o holl goed onnen y DU.

**This tree could grow up to 30m tall but due to ash dieback this figure has lowered to around 25m tall.**

**Leaves:** There are 9-13 light-green leaflets growing opposite each other with one terminal leaf at the tip.

**Flowers:** Dioecious. Both male and female flowers are purple and appear before the leaves in spring, growing in spiked clusters at the tips of twigs.

**Seeds:** Bunched pale-green keys which turn brown and fall in the Autumn.

**Bark:** Pale grey, maturing a usually regular network of shallow, criss-cross ridges, similar to English Oaks.

**Fun Fact:** A strong and flexible timber. It has been used to make oars, hockey sticks and skis. The ash dieback disease will kill up to 80% of all Ash trees in the UK.



# Ffawydden / Beech

*Fagus sylvatica*

1 3 6

**Gall y goeden hon dyfu dros 30m o uchder ac mae'n ffynnu mewn coetiroedd gyda phridd calchog wedi'i ddraenio'n dda.**

**Dail:** Lliw melynwyrdd pan yn ifanc ac yn tywyllu wrth heneiddio. Hirgrwn gydag ymylon tonnog a blaen pigfain. Mae'r goeden yn cadw ei dail tan ddiwedd y Gaeaf.

**Blodau:** Monoecaidd. Mae cenawon gwrywaidd melynaidd pinc tebyg i dasel yn hongian o'r coesynnau.

**Hadau:** Mae cenawon benywaidd yn tyfu mewn parau wedi'u hamgáu mewn cwpan. Mae'r cwpan yn mynd yn goediog ar ôl iddo gael ei beillio ac yn amgáu'r cnau ffawydd.

**Rhisgl:** Sidanaidd a llyfn, tenau a llwyd.

**Ffaith ddiddorol:** Gellir defnyddio'r cnau wedi'u rhostio a'u malu fel dewis amgen i goffi.

**This tree can grow over 30m tall and thrives in woodlands with well-drained, chalky soil.**

**Leaves:** Lime-green when young and darken with age. Oval with wavy edges and a pointed tip. The tree retains its leaves until late Winter.

**Flowers:** Monoecious. Male tassel-like yellowish pink catkins hang down from stalks.

**Seeds:** Female Catkins grow in pairs encased in a cup. The cup becomes woody once pollinated and encloses the beech nuts (known as beechmast).

**Bark:** Silky smooth, thin and grey.

**Fun Fact:** The nuts roasted and ground can be used as a coffee substitute.



# Bedwen Lwyd / Downy Birch

*Betula pubescens*

1 2 3 4 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 20m o uchder a gellir ei chanfod mewn ucheldiroedd a phriddoedd llaith.**

**Dail:** Crwn ar y gwaelod a thrionglog ar y blaen. Danheddog.

**Blodau:** Monoecaidd. Cenawon gwrywaidd brown neu wyrdd. Bydd cenawon benywaidd yn troi'n goch pan gânt eu peillio.

**Hadau:** Cenawon benywaidd yn troi'n brown ac yn gwasgaru hefo'r gwynt.

**Rhisgl:** Rhisgl gwyn tenau iawn gyda brigau ifanc crychiog. Gwallt mân yn gorchuddio'r brigyn o dan y blagur.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r pren trwm a chaled yn wych ar gyfer gwneud dodrefn.

**This tree can grow up to 20m tall and is found on uplands and damp soils.**

**Leaves:** Rounded at the base and triangular at the tip. Toothed.

**Flowers:** Monoecious. Male catkins which are brown or green. Female Catkins will turn red when pollinated.

**Seeds** Female catkins turn brown and disperses with the wind.

**Bark:** Very thin white bark with fuzzy young twigs. Fuzzy fine hair covers the stalks beneath the bud.

**Fun Fact:** The heavy and tough timber is great to make furniture with.



# Bedwen Arian / Silver Birch

*Betula pendula*

1 2 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 30m o uchder a gellir ei chanfod ar ucheldiroedd a phriddoedd tywodlyd sych.**

**Dail:** Dail gwyrdd golau bach, danheddog, trionglog.

**Blodau:** Mae’r cenawon gwrywaidd yn felyn-frown ac yn hongian i lawr. Mae’r cenawon benywaidd yn wyrdd llachar ac yn troi’n goch tywyll pan gânt eu peillio.

**Hadau:** Cenawon benywaidd yn troi’n brown ac yn gwasgaru hefo’r gwynt.

**Rhisgl:** Rhisgl arian gwyn tenau sy’n tywyllu ar y gwaelod. Mae’r brigau’n llyfn gyda dafadennau garw.

**Ffaith ddiddorol:** Gellir defnyddio’r rhisgl i drin lledr.

**This tree can grow up to 30m tall and is found on uplands and dry sandy soils.**

**Leaves:** Small, toothed, triangular, light green leaves.

**Flowers:** Male Catkins are yellow-brown and hang down. Female Catkins are bright green and turn dark red when pollinated.

**Seeds:** Female catkins turn brown and disperses with the wind.

**Bark**: Sliver-white, paper-like bark which darkens at the base. Twigs are smooth with rough warts.

**Fun Fact:** The bark can be used for tanning leather.









# Criafolen neu Cerddinen / Rowan or Mountain Ash

*Sorbus aucuparia*

1 2 3 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 15m o uchder a gellir ei chanfod mewn coetiroedd, dyffrynnoedd a'r rhan fwyaf o ucheldiroedd.**

**Dail:** 15 o ddail bychain, pob un yn 5cm o hyd ac yn ddanheddog.

**Blodau:** Monoecaidd. Petalau mawr, gwastad a gwyn hufennog sy'n blodeuo ddiwedd y Gwanwyn.

**Hadau:** Yn aeddfedu ym mis Awst ac yn tyfu aeron coch ysgarlad hyd at 1cm y mae adar sy'n canu wrth eu boddau yn eu bwyta.

**Rhisgl:** Arian llwyd a llyfn, mae strimynau llorweddol o linellau tywyllach arnynt.

**Ffaith ddiddorol:** Pren cryf a hyblyg a ddefnyddiwyd i wneud bwâu byr yn hanesyddol.

**This tree can grow up to 15m tall and is found in woodlands, valleys and most uplands.**

**Leaves:** 15 leaflets, each 5cm long and serrated.

**Flowers:** Monoecious. Big, flat and creamy-white petals which flower in late Spring.

**Seeds:** Ripen in August up to 1cm scarlet red berries that songbirds love to eat.

**Bark:** Smooth and silvery grey, horizontally streaked with darker lines.

**Fun Fact:** Strong and flexible timber historically made into short bows.



# Masarnen /Sycamore

*Acer pseudoplatanus*

1 2 3 7

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 30m o uchder a gellir ei chanfod mewn ystod eang o gynefinoedd ond eto mae hi fwyaf amlwg mewn priddoedd cyfoethog a thrwm.**

**Dail:** Mae'r dail yn fawr ac yn cynnwys pum llabed, gyda'r ochr uchaf yn wyrdd tywyll. Mae'n nhw'n troi'n oren-frown yn gynnar yn yr Hydref.

**Blodau:** Melyn-wyrdd, yn fach ac yn hongian mewn pigau.

**Hadau:** Hadau asgellog melynwyrdd ar gynffonau sy'n mesur 6-12cm o hyd ac yn hongian o'r coesynnau.

**Rhisgl:** Pinc llwydaidd a llyfn. Pan fydd yn aeddfed mae'n flewog gyda phlatiau llwyd golau bach.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r hadau asgellog yn denu pryfed glas ar gyfer dibenion peillio.

**This tree can grow up to 30m tall and is found on a wide range of habitats yet dominates in rich and heavy soils.**

**Leaves:** Leaves are large and five-lobed, with dark green upper sides. They flush orange-brown in early Autumn.

**Flowers:** Yellow-green, small and hang in spikes.

**Seeds:** Yellow-green keys, on 6-12cm tails which hang from stems.

**Bark:** Pinkish-grey and smooth. When mature shaggy with small pale grey plates.

**Fun Fact:** The keys attract bluebottle flies for pollination.



# Collen / Hazel

*Corylus avellana*

1 2 3 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 15m o uchder a gellir ei chanfod mewn coetiroedd a gwrychoedd ar ystod eang o briddoedd fel coed unigol ar draws ardaloedd ucheldirol ac iseldirol.**

**Dail:** Dail crwn meddal a blewog, gwyrdd golau. Mae'r ymylon wedi'u danheddu â blaenau hir.

**Blodau:** Monoecaidd. Mae'r cenawon gwrywaidd yn felyn ac yn agor ddiwedd y Gaeaf.

**Hadau:** Wedi'u hamgáu mewn plisgyn, mae'r cnau'n aeddfedu yn yr Hydref ac yn newid o wyrdd i frown, ac fel arfer, maent mewn parau.

**Rhisgl:** Pan fo'r rishgl yn ifanc, yn aml mae lliw'r rhisgl yn efydd gloyw, ond garw wrth ei gyffwrdd, ac yn colli croen mewn rhisglau mân.

**Ffaith ddiddorol:** Gellir defnyddio'r canghennau aeddfed a hyblyg i wneud clwydi ac i glymu perthi.

**This tree can grow up to 15m tall and is found in woodlands and hedgerows on a wide range of soils as single trees across uplands and lowlands.**

**Leaves:** Soft and hairy, pale-green rounded leaves. Edges are toothed with a drawn-out tip.

**Flowers:** Monoecious. Male Catkins are yellow and open in the late Winter.

**Seeds:** Encased in a husk, nuts ripen in the Autumn from green to brown and are usually in pairs.

**Bark:** Often burnished bronze when young but harsh to the touch and finely peeling.

**Fun Fact:** Mature pliable branches can be used for wattle-hurdle making to bind laid hedges.



# Draenen Wen / Hawthorn

1 2 3 6

*Crataegus monogyna*

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 10m o uchder a gellir dod o hyd iddi fel arfer mewn coetiroedd, gwrychoedd a'r rhan fwyaf o ucheldiroedd**

**Dail:** Gloyw gyda 2-7 pâr o labedau danheddog. Gallant dyfu hyd at 7cm.

**Blodau:** Monoecaidd. Blodau 5 petal gwyn hufennog neu binc sy'n tyfu mewn clystyrau. Arogl blodeuog cryf.

**Hadau:** Aeron coch o'r enw eirin meirch. Cadwch lygad am y blaen sy'n siâp seren ddu.

**Rhisgl:** Rhisgl llwydfrown gyda chlymau ac holltau. Mae drain hir yn ymwthio o'r brigau tenau.

**Ffaith ddiddorol:** Gellir defnyddio'r dail mewn salad. Gellir defnyddio'r blodau ar gyfer gwneud diod cordial. Gellir defnyddio'r eirin meirch ar gyfer gwneud jam a jeli.

**This tree can grow up to 10m tall and is commonly found in woodlands, hedgerows and most uplands**

**Leaves:** Shiny with 2-7 pairs of toothed lobes. Can grow up to 7cm.

**Flowers:** Monoecious. Creamy-white or pink 5 petaled flowers which grow in clusters. Strong floral scent.

**Seeds:** Red berry fruits called haws. Look out for the black star shaped tip.

**Bark:** Brown- grey bark with knots and fissures. Long thorns protrude from the thin twiggy branches.

**Fun Fact:** Leaves in salads. Flowers for cordial. 'Haws' for jams and jellies.



# Draenen Ddu / Blackthorn

1 2 3 6

*Prunus spinosa*

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 5m o uchder a gellir ei chanfod mewn gwrychoedd a choetiroedd yn ogystal â choed unigol mewn ucheldiroedd.**

**Dail:** Dail hirgrwn danheddog a phigfain sy'n mesur 2-5cm ar frigau drain.

**Blodau:** Monoecaidd. Blodau petal gwyn hufennog tua 1.5cm. Cynhyrchir rhain ychydig cyn y dail yn gynnar yn y Gwanwyn.

**Hadau:** Eirin surion bach du porffor a gloyw yn mesur tua 10-12mm sy'n aeddfedu yn yr Hydref.

**Rhisgl:** Mae'r rhisgl yn llyfn ac yn frown tywyll gyda'r brigau'n ffurfio egin sy'n datblygu'n ddrain.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r drain hir, miniog yn cael eu defnyddio'n draddodiadol i wneud cloddiau sy'n atal gwartheg. Gall pigau'r ddraenen ddu fod yn beryglus a gall arwain at sepsis – byddwch yn ofalus iawn.

**This tree can grow up to 5m tall and can be found in hedgerows and woodlands as well as singular trees in uplands.**

**Leaves:** Oval toothed and pointed leaves measuring 2-5cm on thorned twigs.

**Flowers:** Monoecious. Creamy white petal flowers around 1.5cm. Produced shortly before the leaves in early Spring.

**Seeds:** Purple-black and waxy Sloe berries measuring around 10-12mm which ripen in Autumn.

**Bark:** The bark is smooth and dark brown with twigs forming shoots which develop into thorns.

**Fun Fact:** With its long, sharp thorns, it is traditionally used to make a cattle-proof hedge. The prick of a blackthorn can be dangerous and lead to sepsis – take extra care.



# Coeden Afalau Surion / Crab Apple 1 2 3 6

*Malus sylvestris*

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 10m o uchder a gellir dod o hyd iddi'n aml mewn hen goedwigoedd a gwrychoedd ar briddoedd trymach, ar iseldiroedd agored, ac ucheldiroedd fel coed unigol.**

**Dail:** Gloyw, hirgrwn gyda blaenau pigfain ac ymylon danheddog. Mae'r ochr isaf yn ddi-liw ac yn llyfn.

**Blodau**: Monoecaidd. Blodau bach gwyn pinc sy'n tyfu o flagur pinc-frown.

**Hadau:** Afalau melynwyrdd bach sy'n asidig iawn.

**Rhisgl:** Cribau cennog brown porffor.

**Ffaith ddiddorol:** Defnyddiwyd y pren ar gyfer gwneud sgriffiadau ar bren ac ar gyfer gwneud offer arlunio. Mae yna rywogaeth enetig unigryw o Afalau Surion Cymreig sy'n llai.

**This tree can grow up to 10m tall and is frequently found in old woods and hedges on heavier soils and in open lowlands and uplands as single trees.**

**Leaves:** Glossy, oval with pointed tips and toothed edges. The underside is dull and smooth.

**Flowers:** Monoecious. Small pinkish-white flowers which emerge from pinkish-brown buds.

**Seeds:** Small yellow-green apples which are very acidic.

**Bark:** Purplish brown closely scaly ridges.

**Fun Fact:** The timber was used for wood engravings and for making drawing instruments. There is a genetically unique species of Welsh Crab Apples which are smaller.



# Ysgawen / Elder

*Sambucus nigra*

1 3 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 10m o uchder a gellir ei chanfod mewn coetiroedd a gwrychoedd.**

**Dail:** Mewn parau cyferbyn gyda 5-7 o ddail bychain, di-liw gyda rhai blew anystwyth.

**Blodau:** Deuoecaidd. Blodau bach, hufennog sy'n tyfu mewn sypiau. Mae'r rhain yn arogli'n gryf ac yn cael eu defnyddio i wneud cordial blodau'r 'sgawen.

**Hadau:** Aeron bach, porffor du, sy'n tyfu mewn sypiau ac sy'n cynnwys un hedyn ymhob un.

**Rhisgl:** Llwyd hufennog gyda chribau cris-croes.

**Ffaith ddiddorol:** Fe'i defnyddir i wneud llawer o liwiau ar gyfer dibenion llifo deunyddiau (newid eu lliw). Ceir lliw porffor o'r aeron, melyn a gwyrdd o'r dail a llwyd a du o'r rhisgl.

**This tree can grow up to 10m tall and can be found in woodlands and hedgerows.**

**Leaves:** In opposite pairs with 5-7 leaflets, dull with some stiff hairs.

**Flowers:** Dioecious. Small, cream, bunched flowers. These are heavily scented and used to make elderflower cordial.

**Seeds:** Small, purple-black, bunched berries each containing a single seed.

**Bark:** Creamy grey with criss-cross ridges.

**Fun Fact:** Used to make many dyes. Purple from the berries, yellow and green from the leaves and grey and black from the bark.



# Celynnen / Holly

*Ilex aquifolium*

1 2 3 5 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 15m o uchder a gellir ei chanfod mewn cynefinoedd niferus sy'n amrywio o goedwigoedd i ucheldiroedd ac iseldiroedd agored.**

**Dail:** Gloyw a bythwyrdd ond gwelw a di-sglein oddi tanynt. Ymylon llafn pigog i atal mamaliaid.

**Blodau:** Monoecaidd. Gwyn gyda phedwar petal. Yn blodeuo yn y Gwanwyn.

**Hadau:** Aeron coch sidanaidd, yn aml mewn parau ar goesynnau byr sy'n cynnwys hadau gwyn y tu mewn ac fe'u gwelir trwy gydol y Gaeaf.

**Rhisgl:** Llwyd brownaidd gyda dafadennau bach tywyll.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r pren yn llosgi'n boeth, a defnyddiwyd y lludw yn draddodiadol i wneud cleddyfau a phennau bwyelli.

**This tree can grow up to 15m tall and is found in numerous habitats from woods to exposed uplands and lowlands.**

**Leaves:** Glossy and evergreen but pale and matt beneath. Prickly bladed edges to deter mammals.

**Flowers:** Monoecious. White with four petals. Blooming in Spring.

**Seeds:** Satiny- crimson berries, often in pairs on short stalks which contain white seeds inside which are seen throughout Winter.

**Bark:** Brownish grey with small dark warts.

**Fun Fact:** The timber burns hot, and its ash was traditionally used for making swords and axe heads.







# Rhosyn gwyllt / Dog rose

3 6

*Rosa canina*

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 3m o uchder a gellir ei chanfod mewn perthi ac ymylon coetiroedd.**

**Dail:** Mae'r dail yn tyfu bob yn ail ochr i'r coesyn ac wedi'u rhannu'n 2-3 pâr o ddail gwyrdd tywyll bychain, danheddog.

**Blodau:** Deuoecaidd. Pinc mawr neu wyn gyda phum petal a llawer o frigerau. Mae ganddynt arogl gwan, melys.

**Hadau:** Egroes coch trawiadol, hirgrwn tebyg i aeron gyda chylch du ar y blaenau. Mae pob egroesen yn cynnwys llawer o hadau blewog.

**Rhisgl:** Yn ifanc, mae'r rhisgl yn llyfn ac yn wyrdd, gan droi'n frown prennaidd yn raddol gyda drain crwm.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r blew y tu mewn i'r egroes yn llidiog ac yn cael eu tynnu i greu powdr cosi.

**This tree can grow up to 3m tall and can be found in hedgerows and woodland edges.**

**Leaves:** The leaves alternate sides of the stem, and divided into 2–3 pairs of smaller, toothed dark-green leaflets.

**Flowers:** Dioecious. Large pink or white with five petals and many stamens. They have a faint, sweet smell.

**Seeds:** Striking red, oval berry-like hips with a black circle on the tips. Each hip contains many hairy seeds.

**Bark:** The bark is smooth and greenish when young gradually turning into woody brown with curved thorns.

**Fun Fact:** The hairs inside the hips are an irritant and are extracted to create an itching powder.







# Gwernen / Alder

*Alnus glutinosa*

1 4 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 18m o uchder ac yn aml mae'n dominyddu corsydd a glannau afonydd.**

**Dail:** Gwyrdd tywyll, fel lledr a chrwn gydag ymylon danheddog. Nid fyddwch fyth yn gweld blaen y ddeilen ffurf pigfain.

**Blodau:** Monoecaidd. Mae'r cenawon gwrywaidd yn goch dwfn trwy gydol y Gaeaf.

**Hadau:** Pan gânt eu peillio, mae gwead y cenawon benywaidd yn troi'n frown prenaidd ac maent yn gwasgaru eu hadau.

**Rhisgl:** Tywyll ac wedi'i hollti, mae'n aml wedi'i orchuddio â chen. Coesynnau smotiog brown golau sy'n troi'n goch tuag at y pen sydd gan y brigau.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r pren yn cael ei ddefnyddio i wneud clocsiau a siarcol.

**This tree can grow up to 18m tall and often dominate bogs and river banks.**

**Leaves:** Dark-green, leathery and rounded with serrated edges. The leaf tip is never pointed.

**Flowers:** Monoecious. Male Catkins are deep red throughout Winter.

**Seeds:** Once pollinated the female Catkin gains a brown woody texture and disperses its seeds.

**Bark:** Dark and fissured, it is often covered in lichen. Twigs have a light brown, spotted stem which turns red towards the top.

**Fun Fact:** The timber has been used for clog and charcoal making.









# Helygen Lwyd / Grey Willow

*Salix cinerea*

1 4 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 10m o uchder a gellir dod o hyd iddi mewn coetiroedd, ac yn fwyaf cyffredin, yng nghyffiniau afonydd a nentydd.**

**Dail:** Hirgrwn, gwyrdd tywyll a sgleiniog ar yr wyneb gyda ffelt arian mân oddi tanynt.

**Blodau:** Deuoecaidd. Mae'r cenawon gwrywaidd yn llwyd, yn fyr ac yn hirgrwn, ac maent yn mynd yn felyn pan gânt eu peillio.

**Hadau:** Mae'r cenawon benywaidd yn hir ac yn wyrdd. Pan gânt eu peillio maent yn troi'n hadau gwlanog.

**Rhisgl:** Mae'r rhisgl yn llwyd i ddechrau ac wedi'i frandio â phyllau bach siâp diemwnt; mae'n aeddfedu gyda chribau eithaf isel, cris-croes. Mae'r egin ifanc yn ymddangos yn goch/melyn yng ngolau'r haul.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r cyffur lladd poen asbrin yn deillio o salisin, sef cyfansoddyn a geir yn rhisgl holl rywogaethau *Salix*.

**This tree can grow up to 10m tall and can be found in woodlands and most commonly around rivers and streams.**

**Leaves:** Oval, dark-green and glossy on the surface with a fine silver felt beneath.

**Flowers:** Dioecious. Male catkins are grey, short and oval, becoming yellow when pollinated.

**Seeds:** Female Catkins are long and green and once pollinated they develop into woolly seeds.

**Bark:** Bark is grey at first branded with small diamond-shaped pits; maturing with rather shallow, criss-cross ridges. Young shoots appear red/yellow in sunlight.

**Fun Fact:** The painkiller Aspirin is derived from salicin, a compound found in the bark of all *Salix* species.



# Helygen Ddeilgron / Goat Willow

*Salix caprea*

1 2

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 20m o uchder a gellir ei chanfod mewn coetiroedd, ac yn fwyaf cyffredin, yng nghyffiniau afonydd a nentydd.**

**Dail:** Hirgrwn, tywyll, crychlyd, gydag ychydig neu ddim dannedd. Blaen yn plygu i'r ochr. Oddi tanynt, ffelt llwydwyrdd mân iawn.

**Blodau:** Deuoecaidd. Mae'r cenawon gwrywaidd yn llwyd, hirgrwn a melyn.

**Hadau:** Mae'r cenawon benywaidd bach yn hir ac yn wyrdd. Pan gânt eu peillio maent yn troi'n hadau gwlanog.

**Rhisgl:** Llwyd-frown. Mae gan y coed ifanc byllau bach siâp diemwnt sy'n rhwymo'r boncyff; gan ddatblygu i fod yn gribau cris-croes isel.

**Ffaith ddiddorol:** Yn wahanol i Helygiaid eraill, am fod y brigau yn frau, nid yw'n addas ar gyfer gwehyddu.

**This tree can grow up to 20m tall and is found in woodlands and most commonly around rivers and streams.**

**Leaves:** Oval, dark, wrinkly, with few or no teeth. Tip bent sideways. Underneath, a very fine grey green felt.

**Flowers:** Dioecious. Male Catkins are grey, oval and yellow.

**Seeds:** Female catkins are long and green. When pollinated they turn into woolly seeds.

**Bark:** Grey Brown. Young trees have small diamond-shaped pits banding the trunk; developing into shallow criss-crossed ridges.

**Fun Fact:** Unlike other Willows, due to the brittle nature of the twigs it is not suitable for weaving.



# Ceiriosen Wyllt / Wild Cherry

*Prunus avium*

1 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 20m o uchder a gellir ei chanfod mewn coetiroedd gyda phridd cyfoethog a golau haul uniongyrchol.**

**Dail:** Hirgrwn, gwyrdd a danheddog gyda dwy chwarren goch ar y coesyn ar waelod y ddeilen. 6-15cm o hyd.

**Blodau**: Deuoecaidd. Clystyrau o flodau gwyn gydag arogl almwn cryf.

**Hadau:** Pan gânt eu peillio, mae'r blodau'n datblygu'n geirios dwfn-goch di-flew sy'n disgyn neu'n cael eu bwyta gan adar yn yr Haf. Nid ydynt yn fwytadwy i fodau dynol.

**Rhisgl:** Brown cochlyd dwfn. Maent yn loyw a llyfn gyda bandiau llorweddol o lentiselau.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r pren pinc-frown yn cael ei ddefnyddio mewn dodrefn cain ac arwynebau.

**This tree can grow up to 20m tall and is found in woodlands with rich soil and full sunlight.**

**Leaves:** Oval, green and toothed with two red glands on the stalk at the leaf base. 6-15cm in length

**Flowers:** Dioecious. Clusters of white flowers with a strong almond scent.

**Seeds:** When pollinated, flowers develop into hairless deep-red cherries which drop or are eaten by birds in the Summer. They are not edible to humans.

**Bark:** Deep reddish brown. Shiny and smooth with horizontal bands of lenticels.

**Fun Fact:** Its pinkish brown wood is used in fine furniture and veneers.











# Ceiriosen yr Aderyn / Bird Cherry

*Prunus padus*

1 3 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 15m o uchder, ac fel arfer, gellir ei chanfod mewn coetiroedd ac ar hyd ymylon nentydd a gwrychoedd.**

**Dail:** Gwyrdd tywyll a hirgrwn gydag ymylon danheddog mân sy'n fwy golau oddi tanynt. 6-10cm.

**Blodau:** Deuoecaidd. Clystyrau o flodau gwyn â phum petal. Persawrus iawn.

**Hadau:** Mae'r blodau'n datblygu'n geirios chwerw porffor du.

**Rhisgl:** Rhisgl brown tywyll a llyfn sy'n colli rhisgl gyda bandiau llorweddol o lentiselau a holltau oren amlwg. Hydraidd gydag arogl chwerw.

**Ffaith ddiddorol:** Ar un adeg, defnyddiwyd y cemegau yn y rhisgl fel plaladdwr.

**This tree can grow up to 15m tall and is commonly found in woodlands and along stream edges and hedgerows.**

**Leaves:** Dark green and oval with finely serrated edges which are paler underneath. 6-10cm.

**Flowers:** Dioecious. Clusters of white five petaled flowers. Heavily scented.

**Seeds:** Flowers develop into purple-black, bitter cherries.

**Bark:** Dark brown, smooth, peeling bark with horizontal bands of lenticels and prominent orange fissures. Porous with a bitter odour.

**Fun Fact:** The chemicals in the bark were used as a pesticide.







# Pinwydden yr Alban / Scots Pine

*Pinus sylvestris*

1 2 5 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 25m o uchder a gellir ei chanfod ar iseldiroedd ac ucheldiroedd.**

**Dail:** Bytholwyrdd. Nodwyddau gwyrddlas sy'n tyfu mewn parau 4-7cm o hyd.

**Blodau:** Monoecaidd. Mae'r blodau gwrywaidd yn tyfu ar waelod egin ac maent yn felyn.

**Hadau:** Mae'r blodau benywaidd yn tyfu ar flaenau egin newydd ac maent yn goch-borffor a sfferig cyn troi'n wyrdd ac yn datblygu'n gonau pinwydd ar ôl iddynt gael eu peillio. Mae'r hadau y tu mewn i'r conau ar arwynebau uchaf cennau'r conau.

**Rhisgl:** Mae rhisgl y boncyff yn frowngoch-llwyd ac yn datblygu cennau a holltau wrth heneiddio.

**Ffaith ddiddorol:** Gellir ei chanfod wedi'i chlystyru ar hen ffyrdd y porthmyn fel cyfeirbwyntiau mewn tywydd gwael ac arwyddion lletygarwch.

**This tree can grow up to 25m and is found on lowlands and uplands.**

**Leaves:** Evergreen. Blue-green needles growing in pairs at 4-7cm long.

**Flowers:** Monoecaidd. Male flowers grow on the base of shoots and are yellow.

**Seeds:** Female flowers grow on the tips of new shoots and are reddish purple and spherical then turn green and develop into pinecones once they are pollinated. Seeds are inside the cones on the upper surfaces of the cone scales.

**Bark:** Trunk bark reddish-grey brown and develops scales and fissures with age.

**Fun Fact:** Found clustered on old drovers' roads as way markers in bad weather and markers of hospitality.



# Aethnen / Aspen

*Populus tremula*

1 2 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 20m o uchder a gellir ei chanfod ar rostir, coetir ac weithiau ar arfordiroedd creigiog.**

**Dail:** Dail crwn gyda dannedd mawr di-fin. Mae coesynnau'r dail yn wastad ac yn hyblyg ac felly'n chwythu'n rhwydd yn y gwynt, gan roi'r llysenw Aethnen Grynedig i'r goeden.

**Blodau:** Deuoecaidd. Mae'r cenawon gwrywaidd yn 5-10cm o hyd gydag antherau pinc a blew llwyd.

**Hadau:** Mae'r cenawon benywaidd yn 2-6cm o hyd, yn llwydwyrdd ac yn sidanaidd. Pan gânt eu peillio maent yn tyfu i 10-12cm o hyd ac yn aeddfedu ym mis Mai.

**Rhisgl:** Rhisgl llwyd gyda llinellau llorweddol. Yn aml yn frith o fandyllau siâp diemwnt.

**Ffaith ddiddorol:** Gwych ar gyfer matsys a phapur gan fod ganddi fflamadwyedd isel.

**This tree can grow up to 20m tall and is found on heathland, woodland and sometimes rocky coasts.**

**Leaves:** Round leaves with large blunt teeth. Leaf stalks are flat and flexible so flutter easily in the wind: giving the tree the nickname of Quaking Aspen.

**Flowers:** Dioecious. Male Catkins are 5-10cm long with pink anthers and grey hair.

**Seeds:** Female Catkins are 2-6cm grey-greenish and silky, once pollinated they grow to 10-12cm long and ripen in May.

**Bark:** Grey bark with horizontal lines. Often pitted with diamond shaped pores.

**Fun Fact:** Great for matches and paper as it has low flammability.







# Pisgwydden deilen fach / Small-leaved Lime

1 6

*Tilia cordata*

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 25m o uchder a gellir ei chanfod yn bennaf mewn hen goetiroedd.**

**Dail:** Dail siâp calon gyda blaen pigfain. Gwyrdd golau gyda blew oren rhydlyd ar waelod y coesyn ac ar hyd gwythiennau ochrau isaf y dail.

**Blodau:** Monoecaidd. Melynwyrdd, blodau â phum petal sy'n hongian mewn clystyrau o 5-11 ac sydd ag arogl cryf.

**Hadau:** Bydd y blodau'n datblygu'n ffrwythau crwn sydd ynghlwm wrth flodeulen (bract) trwy gyfrwng y coesynnau.

**Rhisgl:** Llwyd-frown. Llyfn ac yn tyfu cennau fflawiog wrth heneiddio.

**Ffaith ddiddorol:** Math o bren nad yw'n anffurfio, felly'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud allweddi piano.

**This tree can grow up to 25m tall and is mainly found in old woodlands.**

**Leaves:** Heart shaped leaves with a pointed tip. Light green with rusty-orange hairs at the base of the stalk and along veins on their undersides.

**Flowers:** Monoecious. Yellow-green, five petalled flowers which hang in clusters of 5-11 and have a heavy scent.

**Seeds:** Flowers will develop into round fruits that are attached via stalks to a bract.

**Bark:** Grey brown. Smooth and then grows flaky plates with age.

**Fun Fact:** A wood that doesn't warp, so is used to make piano keys.



# Castanwydden Bêr / Sweet Chestnut

*Castanea sativa*

1 7

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 30m o uchder a gellir ei chanfod fel arfer mewn coetiroedd â phridd dwfn, llaith.**

**Dail:** Dail llachar a gloyw, siâp gwaywffon sy'n ddanheddog ac sydd â blaenau pigfain. 16-28cm o hyd.

**Blodau:** Monoecaidd. Cenawon gwrywaidd melyn hir gyda chenawon benywaidd bach wrth eu gwaelod.

**Hadau:** Ffrwythau coch-frown gloyw mewn plisgyn pigog gwyrdd. Dim ond pan fydd hi tua 25 oed y mae'r goeden yn dwyn ffrwytho.

**Rhisgl:** Llwyd-borffor a llyfn. Holltau sy'n troelli i fyny ac o amgylch y goeden.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r plisgyn yn dal o leiaf ddau gastanwydd sy'n fwytadwy pan gânt eu rhostio. Mae castanwydd yn ffynonellau cyfoethog o fitamin C a B.

**This tree can grow up to 30m tall and is commonly found in woodlands with deep, moist soil.**

**Leaves:** Bright and glossy, spear shaped leaves which are serrated and have pointed tips. 16-28cm long.

**Flowers:** Monoecious. Long yellow female catkins with female catkins at their base.

**Seeds:** Shiny red-brown fruits in a green spikey husk. The tree only bears fruit from around 25 years old.

**Bark:** Grey-purple and smooth. Fissures spiral upwards around the tree.

**Fun Fact:** The husk houses at least two chestnuts which are edible when roasted. Chestnuts are rich sources of vitamin C and B.



# Castanwydden y Meirch / Horse Chestnut

*Aesculus hippocastanum*

1 7

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 30m o uchder a gellir ei chanfod mewn rhai coetiroedd, ond yn gyffredinol, mae'n fwy cyffredin mewn parciau a gerddi.**

**Dail:** Mae'r dail palmwydd yn cynnwys 5-7 o ddail bychain pigfain, danheddog sy'n tyfu o goesyn canolog.

**Blodau:** Monoecaidd. Gwyn gyda fflys pinc a fydd yn blodeuo yn y Gwanwyn.

**Hadau:** Bydd y blodau sydd wedi'u peillio yn datblygu'n goncyrs unigol mewn plisgyn gwyrdd pigog.

**Rhisgl:** Mae'r rhisgl yn llyfn ac yn binc-llwyd pan fo'n ifanc, sy'n tywyllu ac yn datblygu cennau wrth heneiddio.

**Ffaith ddiddorol:** Gêm concyrs. Daw cofnod cyntaf o'r gêm o Ynys Wyth ym 1848.

**This tree can grow up to 30m tall and is found in some woodlands but is generally more common in parks and gardens.**

**Leaves:** Palmate leaves comprise of 5-7 pointed, toothed leaflets which spread from a central stem.

**Flowers:** Monoecious. White with a pink flush which will bloom in Spring.

**Seeds:** Pollinated flowers will develop into single conkers in spiky green husks.

**Bark:** The bark is smooth and pink-grey when young, which darkens and develops scaly plates with age.

**Fun Fact:** The game of conkers. The first record of the game is from the Isle of Wight in 1848.



# Ywen / Yew

*Taxus baccata*

5 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 20m o uchder a gellir ei chanfod mewn coetiroedd Ffawydd ac fe'i plannir yn aml mewn mynwentydd.**

**Dail:** Bytholwyrdd. Nodwyddau bach, gwyrdd tywyll sy'n wyrdd llwydaidd oddi tanynt. Mae'r nodwyddau'n tyfu mewn dwy res o boptu'r brigau.

**Blodau:** Deuoecaidd. Mae'r blodau gwrywaidd yn felyn gwyn ac yn grwn.

**Hadau:** Mae'r blodau benywaidd yn wyrdd, yn gennog ac yn debyg i flagur, maent yn troi'n frown wrth heneiddio. Mae'r hadau wedi'u hamgáu mewn aeron coch meddal fel aril sydd ar agor yn y blaen.

**Rhisgl:** Browngoch ac yn rhisglo. Gall coed hŷn fod ag arlliw porffor i'r rhisgl.

**Ffaith ddiddorol:** Credir ei bod wedi'i phlannu ar feddau dioddefwyr pla i amddiffyn a phuro'r meirw, ac mewn mynwentydd i atal 'cominwyr' rhag pori eu gwartheg ar dir eglwys gan fod Ywen yn hynod wenwynig i dda byw.

**This tree can grow up to 20m tall and can be found in Beech woodlands and is commonly planted in churchyards.**

**Leaves:** Evergreen. Small, dark green needles which are a greyish-green underneath. The needles grow in two rows on either side of the twigs.

**Flowers:** Dioecious. Male flowers are yellowish-white and globular.

**Seeds:** Female flowers are green, scaly and bud like, turning brown with age. Seeds are enclosed in a soft red berry like aril which is open at the tip.

**Bark:** Reddish brown and peeling. Older trees can have a purple tinge to the bark.

**Fun Fact:** Thought to have been planted on graves of plague victims to protect and purify the dead, and in churchyards to stop 'commoners' from grazing their cattle on church ground as Yew is extremely poisonous to livestock.



# Masarnen fach / Field Maple

*Acer campestre*

1 3 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 15m o uchder a gellir ei chanfod ar ymylon coetiroedd ac mewn gwrychoedd.**

**Dail:** Dail bach â phum llabed sy'n loyw ac yn wyrdd tywyll.

**Blodau**: Deuoecaidd. Mae'r blodau'n fach iawn, yn felynwyrdd ac yn tyfu mewn clystyrau.

**Hadau:** Bydd y blodau sydd wedi'u peillio yn aeddfedu'n godennau hadau asgellog syth gyda blaenau pinc.

**Rhisgl:** Rhisgl brown golau gyda holltau fertigol.

**Ffaith ddiddorol:** Fe'i defnyddir mewn llawer o grefftau pren ac i wneud offerynnau fel y delyn. Dyma'r unig fasarnen sy'n frodorol hefyd.

**This tree can grow up to 15m tall and can be found at the edges of woodlands and in hedgerows.**

**Leaves:** Small, five lobed leaves that are glossy and dark green.

**Flowers:** Dioecious. Flowers are very small, yellow-green and grow in clusters.

**Seeds:** Pollinated flowers will mature into straight winged seed pods with pinkish tips.

**Bark:** Light- brown bark with vertical fissures.

**Fun Fact:** Used in many wood turned crafts and to make instruments such as the Harp. It is also the only native maple.



# Oestrwydden / Hornbeam

1 3 6

*Carpinus betulus*

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 30m o uchder a gellir ei chanfod yn aml mewn coetiroedd Derw.**

**Dail:** Dail hirgrwn, plethedig gyda blaenau pigfain ac ymylon mân danheddog.

**Blodau:** Monoecaidd. Mae'r cenawon gwrywaidd yn ehangu yn y Gwanwyn fel llenni melyn. Mae'r blodau benywaidd yn ehangu yn ffrwythau asgellog fel papur o'r enw samarâu sy'n cynnwys hadau bach.

**Hadau:** Mae'r cenawon benywaidd bach yn datblygu i fod yn ffrwythau asgellog gwyrdd fel papur a elwir yn samarâu. Mae'r ffrwyth yn gneuen fach iawn sy'n mesur llai na 1cm o hyd. Mae'r cnau yn eistedd rhwng y parau o flodeulenni (bractau) â 3 llabed.

**Rhisgl:** Rhisgl arian-llwyd llyfn gyda marciau fertigol. Mae'r brigau yn llwyd-frown ac ychydig yn flewog.

**Ffaith ddiddorol:** Defnyddiodd y Rhufeiniaid Oestrwydden i wneud eu cerbydau gan fod y pren yn galed iawn.

**This tree can grow up to 30m tall and is often found in Oak woodlands.**

**Leaves:** Oval, pleated leaves with pointed tips and finely toothed edges.

**Flowers:** Monoecious. Male catkins expand in Spring as yellow curtains. Female flowers expand into papery-winged fruits called samaras containing small seeds.

**Seeds:** Female catkins develop into papery, green winged fruits, known as samaras. The fruit is a very small nut measuring less than 1cm long. The nuts sit between the pairs of 3-loed bracts.

**Bark:** Smooth silver-grey bark with vertical markings. Twigs are brown-grey and slightly hairy.

**Fun Fact:** Romans used Hornbeam to make their chariots as the wood is very hard.



# Llwyfen Lydanddail / Wych Elm

1 3 6

*Ulmus glabra*

**Gallai'r goeden hon dyfu hyd at 25m o uchder, ond oherwydd clwy'r Coed Ynn, anaml y'i gwelir fel coeden aeddfed. Gellir dod o hyd iddi mewn perthi a choetiroedd.**

**Dail:** Dail hirgrwn danheddog sy'n pigfeinio'n sydyn. Maent yn ddail mawr sy'n gallu tyfu hyd at 16cm.

**Blodau:** Monoecaidd. Mae'r blodau yn lliw coch-porffor ac yn tyfu mewn clystyrau o 15-20.

**Hadau:** Mae'r blodau'n datblygu'n ffrwythau bach, asgellog a elwir yn samarâu sy'n cael eu gwasgaru gan y gwynt.

**Rhisgl:** Pan fo'n ifanc, mae'r rhisgl yn llyfn ac yn llwyd gan ddatblygu holltau ac yn tywyllu wrth heneiddio. Mae'r brigau yn llwyd tywyll ac wedi'u gorchuddio â blew bras.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r pren yn gryf, yn wydn gyda grawn troellog tynn ac mae'n gwrthsefyll dŵr, sy'n ei gwneud hi'n haws i'w defnyddio ar gyfer gwaith saer / coed na'r llwyfen gyffredin.

**This tree could grow up to 25m tall but due to Dutch Elm disease they are rarely found as mature trees. They can be found in hedgerows and woodlands.**

**Leaves:** Toothed, oval leaves which taper off suddenly into a point. They are large leaves which can grow up to 16cm

**Flowers:** Monoecious. The flowers are a red-purple colour and grow in clusters of 15-20.

**Seeds:** Flowers develop into small, winged fruit known as samaras which are dispersed by the wind.

**Bark:** When young the bark is smooth and grey developing fissures and darkening with age. The twigs are dark grey and covered in coarse hairs.

**Fun Fact:** The wood is strong, durable with a tight twisted grain and is resistant to water, which makes it easier to work for carpentry than common elm.



# Poplysen Ddu / Black Poplar

*Populus nigra*

1 4 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 25m o uchder a gellir ei chanfod mewn amodau corsiog ger afonydd a nentydd.**

**Dail:** Gloyw, gwyrdd a siâp calon gyda blaenau hir. Mae'r dail ifanc wedi'u gorchuddio â blew mân.

**Blodau:** Deuoecaidd. Mae'r cenawon gwrywaidd yn goch yn y Gwanwyn.

**Hadau:** Mae'r cenawon benywaidd yn felynwyrdd a byddant yn datblygu'n flodau tebyg i gotwm blewog pan gânt eu peillio.

**Rhisgl:** Brown tywyll sydd yn aml yn edrych yn ddu. Holltau a thyllau dwfn. Mae'r brigau'n frown ac yn dalpiog.

**Ffaith ddiddorol:** Mae'n sbringlyd / sionc yn naturiol ac yn gallu gwrthsefyll sioc. Roedd defnyddiau traddodiadol yn cynnwys olwynion cert a gwaelodion wagenni.

**This tree can grow up to 25m tall and can be found in boggy conditions near rivers and streams.**

**Leaves:** Shiny, green and heart shaped with long tips. Young leaves are covered in fine hairs.

**Flowers:** Dioecious. Male catkins are red in the Spring.

**Seeds:** Female catkins are yellow-green and will develop into fluffy cotton like flowers when pollinated.

**Bark:** Dark brown which often looks black. Deep fissures and burrows. The twigs are brown and lumpy.

**Fun Fact:** It is naturally springy and resistant to shock. Traditional uses included cartwheels and wagon bottoms.



# Merywen / Juniper

*Juniperus spp.*

2 5 6

**Gall y goeden hon dyfu hyd at 5m o uchder a gellir ei chanfod mewn ucheldiroedd, coetiroedd pinwydd brodorol ac iseldiroedd calchaidd.**

**Dail:** Bythwyrdd. Mae'r nodwyddau gwyrdd pigog gyda band arian eang ar yr ochr fewnol, wedi'u trefnu'n dri o amgylch y blagur.

**Blodau:** Deuoecaidd. Mae'r strwythurau gwrywaidd yn felyn a chrwn ac yn tyfu mewn echelinau dail ger blaenau brigau.

**Hadau:** Mae'r strwythurau benywaidd yn tyfu ar goed ar wahân ac maent yn wyrdd. Pan gânt eu peillio, byddant yn datblygu'n gôn piws-ddu fel aeron. Bydd tri cen cigog o hadau yn cyfarfod yng nghanol yr aeron.

**Rhisgl:** Llwyd-frown ac yn rhisglo wrth heneiddio. Mae'r brigau yn frowngoch.

**Ffaith ddiddorol:** Defnyddir yr olew hanfodol mewn aromatherapi a phersawr.

**This tree can grow up to 5m tall and can be found in uplands, native-pine woodland and chalky lowland.**

**Leaves:** Evergreen. Spiky green needles with a broad silver band on the inner side, are arranged in threes around the shoot.

**Flowers:** Dioecious. Male structures are yellow and globular which grow in leaf axils near the tips of twigs.

**Seeds:** Female structures grow on separate trees and are green. Once pollinated they will develop into a purple-black berry like cone. Three fleshy seed scales will meet in the middle of the berry.

**Bark:** Grey-brown and peels with age. The twigs are a reddish brown.

**Fun Fact:** The essential oil is used in aromatherapy and perfumery.

Coedlan Llydanddail
Broadleaved Woodland

Coedlan Conwydd
Coniter Woodland

Coedlan Cymysg Llydanddail & Conwydd
Mixed Broadleaf & Conifer Woodland

Coedlan Cymysg Cwympedig & Ifanc
Mixed Felled & Young Woodland


Coedlan & Prysgwydd
Woodland & Scrub


Ardal Cynllun Carneddau
Carneddau Project Area

Ffin Parc Cenedlaethol Eryri
Eryri National Park (Snowdonia) boundary

Ffynhonnell: Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol 2021, Cynefin a Rhywogaethau Nodweddion y Ardaloedd Cymeriad Tirwedd y Carneddau 2019

Source: National Forestry Inventory 2021, Habitat and Species Characteristics of the Landscape Character Areas of the Carneddau 2019




Llanllechid
Rachub
BETHESDA
A4244
A5(T)
B4409
Drosgl
Foel Fras
Drum
Carnedd Gwenllian
Dulyn
Llyn Eigiau
Yr Elen
Carnedd Llewelyn
Carnedd Dafydd
Ffynnon Llugwy
Llyn Cowlyd
Pen yr Ole Wen
Llyn Ogwen
Tal-y-bont
Dolgarrog
A470(T)
Trefriw
B5106
LLANRWST
Llyn Crafnant
Llyn Geirionydd
Llyn Bodgynydd
Capel Curig
A4086
A5(T)
BETWS-Y-COED
0 1 2 3 4 5 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata
© Crown copyright and database rights 2024 OS AC0000825604

PARTNERIAETH TIRWEDD Y
CARNEDDAU
LANDSCAPE PARTNERSHIP

**Diolchadau / Acknowedgements**

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd i helpu i lunio'r llyfryn.

We are immensely grateful to everyone who gave their time and expertise to help shape the booklet.

**Darluniadau / Illustrations :** Mike Roberts Creative, Colin Barker & Liz Jenkins

**Y Tîm Ysgrifennu / The Writing Team :** Abbie Edwards, Sophie Davies, Tara Hall & Rhydian Roberts

PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth

Made possible with Heritage Fund